**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf /JMEWL/12005/21

Jack Sargeant MS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

5 Ionawr 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Rhagfyr yn tynnu fy sylw at Ddeiseb P-06-1239 Canslo Arholiadau TGAU yng Nghymru a ddaeth i'ch llaw gan Ms Millie Rae.

Rwy'n deall y pryderon a godwyd gan Ms Rae, o ystyried y tarfu a gafwyd ar addysgu a dysgu dros y 18 mis diwethaf a'r dechrau heriol a welwyd i dymor yr hydref. Hoffwn roi sicrwydd i Ms Rae mai fy mhrif flaenoriaeth yw cefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr, a chadarnhau y bydd y materion hyn yn parhau wrth wraidd y trefniadau a wneir ar gyfer cymwysterau yn ystod 2022.

Cyhoeddais ddatganiad ar 16 Rhagfyr yn amlinellu pecyn cyllido gwerth £24m i helpu dysgwyr yn y blynyddoedd sy'n sefyll arholiadau. Bydd y pecyn hwn yn sicrhau y bydd modd i bob person ifanc yn y blynyddoedd sy'n ymgymryd â chymwysterau gael gafael ar gymorth ymarferol neu gyngor i'w helpu, fel y bydd yn gallu edrych ymlaen at y cam nesaf yn ei fywyd, boed hynny ym myd addysg, hyfforddiant neu waith.

Fel yr eglurais yn fy natganiad, rwyf o'r farn mai arholiadau sy'n darparu'r ffordd fwyaf teg o ddyfarnu cymwysterau, yn arbennig yng nghyd-destun ehangach y DU lle mae'n hanfodol sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cyfleoedd sy'n gyfartal â'u cyfoedion yn rhannau eraill o'r DU o ran cael eu derbyn i'r brifysgol. Yn bwysig, cynhelir arholiadau ar ddiwedd y flwyddyn ysgol yn bennaf, sy'n rhoi rhagor o amser ar gyfer dysgu a pharatoi.

Rwy'n deall y gall rhai dysgwyr deimlo'n bryderus am y syniad o sefyll arholiadau ffurfiol am y tro cyntaf yr haf nesaf, felly hoffwn nodi yn benodol y bydd £7.5m ar gael er mwyn darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr yn y blynyddoedd sy'n sefyll arholiadau, gan dalu am amser addysgu ac adnoddau ychwanegol. At hyn, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael ar wefan Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) i gefnogi dysgu pobl ifanc a'u helpu i baratoi ar gyfer arholiadau, gan gynnwys trefnwyr gwybodaeth, dysgu cyfunol ac arweiniad i arholiadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I sicrhau na fydd dysgwyr o dan anfantais o ganlyniad i'r tarfu a gafwyd ar addysgu a dysgu, mae CBAC wedi gwneud addasiadau i bynciau unigol, mewn ymgynghoriad ag athrawon ac arbenigwyr pwnc. Cadarnhawyd yr addasiadau hyn ag ysgolion a cholegau cyn diwedd tymor yr haf er mwyn hwyluso'r gwaith o gynllunio ar gyfer tymor yr hydref. Mae manylion yr addasiadau hyn i asesiadau wedi'u cyhoeddi, ac maent yn cynnwys addasiadau i asesiadau nad ydynt yn arholiadau (NEA), symleiddio cynnwys asesiadau ac, mewn rhai achosion, ddileu unedau cyfan. O ystyried y tarfu a geir o hyd, mae CBAC hefyd wedi cyhoeddi rhagor o addasiadau yn ddiweddar, gan roi gwybodaeth ymlaen llaw am ddeunydd arholiadau ar gyfer nifer o bynciau ychwanegol, er mwyn helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer arholiadau.

Yn ychwanegol at y cymorth hwn sy'n benodol i'r blynyddoedd sy'n sefyll arholiadau, bydd colegau addysg bellach a cholegau chweched dosbarth hefyd yn cael £9.5m i helpu pobl ifanc wrth bontio i'r cam nesaf yn eu haddysg neu eu gyrfa, ac i gynnal gweithgareddau megis sesiynau blas ar yrfaoedd galwedigaethol a diwrnodau agored, yn ogystal â pharhau i redeg yr Hwb Barod ar gyfer Prifysgol mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored a phrifysgolion yng Nghymru. Datblygwyd yr hwb hwn mewn ymateb i'r pandemig y llynedd er mwyn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer pontio i'r brifysgol. Hwb mynediad agored, am ddim yw, sy'n cynnwys casgliad helaeth o ddeunyddiau a fydd yn helpu myfyrwyr sy'n mynd i'r brifysgol am y tro cyntaf i fod yn 'Barod ar gyfer Prifysgol'.

Er ein bod yn bwriadu cynnal cyfres arholiadau'r haf, gan ddysgu o brofiad blaenorol ac o ystyried y ffaith bod hynt y pandemig yn parhau'n anodd ei rhagweld, mae Cymwysterau Cymru wedi rhannu cyngor ag ysgolion a cholegau am drefniadau wrth gefn os na fydd yn bosibl cynnal yr arholiadau'n ddiogel o ganlyniad i'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd.

Rwy'n gweld bod Ms Rae wedi pwysleisio pa mor bwysig yw iechyd meddwl a llesiant dysgwyr. Rwy'n cymryd y mater hwn o ddifrif, felly hoffwn dynnu sylw hefyd at yr adnoddau defnyddiol sydd ar gael yn ein Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc ar ein tudalennau Hwb.

Yn olaf, hoffwn roi sicrwydd i Ms Rae fy mod yn cyfarfod â Cymwysterau Cymru yn rheolaidd er mwyn trafod y materion hyn, ac y byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda nhw i fonitro'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd. Gyda'n gilydd, byddwn yn gwneud yn siŵr na fydd dysgwyr Cymru o dan anfantais, ac yn sicrhau y bydd y bobl ifanc hynny sy'n ymgymryd â chymwysterau eleni yn gallu parhau i ymddiried yn y trefniadau ar gyfer cymwysterau, yn ogystal ag yn y cymorth ehangach sy'n cael ei ddarparu i'w helpu i wneud cynnydd.

Gobeithio y bydd yr uchod o ddefnydd i'r Pwyllgor Deisebau, a diolch ichi unwaith eto am dynnu fy sylw at y ddeiseb hon.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language